**Cofnodion Cyfarfod arbennig Cyngor Tref Dinbych a gynhaliwyd Dydd Mercher, 20 Ionawr 2021 am 6.30 o'r gloch ar Zoom (Dechreuodd y cyfarfod am 6.35yh i bawb gael ymuno)**

**Presennol:** Cynghorwyr Gaynor Wood-Tickle (Cadeirydd), Rhys Thomas (Dirprwy), Roy Tickle, Catherine Jones, Gaynor Morgan Rees, Philip Stevens, Alyn Ashworth, Glenn Swingler, Dyfrig Berry, Lara Pritchard & Carla Hargraves; Jenny Barlow (Clerc y Dref a Carys Jones (Cynorthwyydd Dinesig)

**Ymddiheuriadau:** Dim

**Arsylwi:** Ruth Griffiths

**Croesawodd y cadeirydd bawb i'r cyfarfod cyngor arbennig ym mis Ionawr.**

**37. Datganiad Diddordeb Personol: Dim**

**38. I drafod a pharatoi cyllideb gwario'r cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021/2022 yn dilyn cyflwyniad gan Glerc y Dref.**

Dangosodd clerc y dref adroddiadau ariannol i'r Cynghorwyr tref yn ymwneud â'r gyllideb gyfredol, gwariant cyfoes ynghyd â thaliadau posibl i'w gwneud tan ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Rhoddodd clerc y dref gyflwyniad byr yn manylu ar bob pwnc ariannol yng ngwariant blynyddol y Cyngor Tref. Roedd hyn yn cynnwys edrych ar y cyllid mewn manylion i sicrhau bod yr holl wariant yn cael ei gynnwys. Cadarnhaodd y clerc y byddai'r gyllideb ar gyfer 2021/2022 yn £297,975.00

Caniataodd y clerc amser i'r Cynghorwyr dreulio'r wybodaeth a ddarparwyd ac yna gweithredu sesiwn holi ac ateb. Atebwyd y cwestiynau i gyd a derbyniwyd y gyllideb ar gyfer y flwyddyn i ddod.

**39. I drafod a gosod ffigwr archebiant ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021/2022**

Rhoddodd y clerc wybodaeth yn ymwneud a'r symiau sy'n ofynnol i dalu'r gwariant ar gyfer y flwyddyn i ddod. Trafodwyd hyn gan y cynghorwyr a chytiwyd ar swm archebiant o £66 yr aelwyd. Mae'r archebiant yn aros yr un fath a'r flwyddyn flaenorol. Byddai hyn yn rhoi ffigur archebiant o £229,944.00 yn ogystal â defnyddio £28,011.00 o'r cronfeydd wrth gefn a'r credydau a dderbyniwyd.

Cytunwyd ar y ffigwr gwariant a'r ffigyrau archebiant gan y cynghorwyr i gyd.

Bydd y clerc yn cysylltu â Chyngor Sir Ddinbych gyda'r manylion. Roedd y Cynghorwyr Tref eisiau i drigolion Dinbych gael gwybod bod y ffigur archebiant yn aros yr un fath â'r ddwy flynedd flaenorol. Bydd clerc y dref yn anfon datganiad i'r wasg yn ogystal ag ychwanegu at wefan y Cyngor.

Caeodd y cadeirydd y cyfarfod am 7.34 yh.

Arwyddwyd:..............................................................(cadeirydd)

Dyddiad.........................................